# Newyddion y tymor

Diolch i bawb am eich holl gefnogaeth y tymor hwn. Mae wedi bod yn dymor prysur iawn yn yr ysgol ac mae hwn yn cael ei ddangos trwy'r lluniau ar wefan yr ysgol a'n cyfrif Twitter. (@ygcwmbran)

Dechreuodd y flwyddyn gyda **Diwrnod Roald Dahl** llwyddiannus ar Fedi'r 13eg lle cafodd y disgyblion gyfle i wisgo fel cymeriad o un o lyfrau Dahl. Cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 gyfle arall i wisgo lan ar ddiwedd mis Tachwedd gyda **Diwrnod Oes Fictoria**. Cafodd y disgyblion gyfle i ail-fyw diwrnod nodweddiadol Fictorianaidd. Roedd hwn yn ddiweddglo perffaith i'n huned ar Oes Fictoria. Diolch i bawb, y rhieni, disgyblion a staff am eu cefnogaeth a brwdfrydedd gyda'r diwrnod hwn.

Rydym wedi dathlu diwrnodau eraill yn ystod y tymor hefyd megis Diwrnod Owain Glyndŵr a Diwrnod T. Llew Jones.

Rydym hefyd wedi cynnal wythnosau gwahanol megis Wythnos Gwrth-fwlio, Wythnos Menter a Busnes a chafwyd wythnos lwyddiannus ar gyfer ein hwythnos Gwerthoedd lle gwahoddwyd aelodau o bob teulu mewn i weithio gyda'r disgyblion.

Thank you to everyone for your support this term. It's been a very busy term in school which is highlighted through our photos on the school website and on our Twitter account. (@ygcwmbran)

The year started with a successful **Roald Dahl Day** on September 13th where the pupils had the opportunity to dress up as a character from one of his books. Key Stage 2 pupils had another opportunity to dress up at the end of November during our **Victorian Day**. The pupils relived a typical Victorian School Day and it was a perfect end to our topic on the Victorian era. Thanks to everyone, parents, pupils and staff for their support and enthusiasm with this day.




We've celebrated other days during the term too e.g. Owain Glyndŵr Day and T. Llew Jones Day.

We've also held different themed weeks including our Anti-bullying Week, our Business and Enterprise Week and we had a very successful Family Values week where family members were invited into school to work with the pupils for a session.

# Rhagfyr / December 2017

**Cefnogi elusennau:**

Diolch i bawb sydd wedi cefnogi ein holl ddigwyddiadau dros y tymor. Dyma rai o'r elusennau rydyn ni wedi eu cefnogi hyd yn hyn:

- Bore Coffi MacMillan - £535.10
- Diwrnod Plant Mewn Angen - £391.40
- Arian (£60) a bwyd i elusen draenogod lleol.
- 280kg o fwyd yn ein casgliad Diolchgarwch.
- Ymgyrch Nadolig y cyngor - bwyd a nwyddau 'molchi i'r banc bwyd lleol.

**Gweithgareddau'r Urdd:**

Mae dros 120 o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 bellach yn aelodau o'r Urdd ar gyfer 2017-2018. Ar ddechrau mis Hydref, aeth 70 o ddisgyblion blynyddoedd. 5 a 6 ac 8 aelod o staff i Langrannog am y penwythnos. Cafodd y disgyblion lawer o hwyl yn cymdeithasu drwy'r Gymraeg gydag ysgolion eraill y clwstwr.

Mae'r timoedd rygbi a phêl-rwyd wedi cymryd rhan yng nghystadleuaeth yr Urdd ac, yn yr wythnosau diwethaf, aeth deg o ddisgyblion CA2 i gymryd rhan yn rownd gyntaf Gala Nofio'r Urdd ym Mhontypŵl. Mae tri unigolyn, yn ogystal â thîm cyfnewid blynyddoedd 5 a 6, yn mynd ymlaen i gynrychioli Gwent yn y rownd genedlaethol yng Nghaerdydd ar Ionawr 20fed. Pob lwc iddynt i gyd.

Yn ystod y tymor, aeth disgyblion blwyddyn 4 i Jambori'r Urdd yng Nghaerdydd ac aeth disgyblion blynyddoedd 5 a 6 i'r Rimbojam ym Mhontypŵl. Diolch i'r Urdd am eu holl waith trefnu.

**Supporting charities:**

Thanks to everyone who has supported all our events this term. Here are some of the charities we've supported so far:

- Macmillan Coffee Morning - £535.10
- Children In Need Day - £391.40
- Money (£60) and food for a local hedgehog charity.
- 280kg of food in our Harvest collection.
- The School Council's Christmas Campaign - food and toiletries for the local food bank.

**The Urdd's activities:**

Over 120 pupils in Key Stage 2 are members of the Urdd for 2017-2018. At the beginning of October, 70 pupils from years 5 and 6 along with 8 members of staff went to Llangrannog for the weekend. The pupils had a lot of fun socialising through the medium of Welsh with other schools from the cluster.

The rugby and netball teams have both taken part in the Urdd competitions and, in the last few weeks, ten pupils took part in the first round of the Urdd's Swimming Gala in Pontypool. Three individuals and the year 5 and 6 relay team will be going on to represent Gwent in the national round in Cardiff on January 20th. We wish them the very best of luck.

During the term, year 4 pupils went to Cardiff for the Urdd's Jambori and year 5 and 6 pupils went to the Rimbojam in Pontypool. Thanks to the Urdd for all their work with the organising.

# This term's news

# Y gymuned, clybiau a thripiau

**Gweithio gyda'r gymuned:**

Mae cysylltiad cryf yn dal i barhau rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Dros y tymor, mae llawer o waith wedi'i wneud gydag Eglwys Byddin yr Iachawdwriaeth. Ym mis Tachwedd, aeth grŵp o ddisgyblion yno i dreulio'r prynhawn gyda'r henoed ac aeth y prif swyddogion yno yn ddiweddar er mwyn gweld sut mae'r banc bwyd yn gweithio yno.

Ar Fedi'r 26ain, daeth gweithwyr o Fanc Lloyds i wneud gwaith cynnal a chadw o gwmpas yr ysgol ac rydym yn ddiolchgar iddynt am eu gwaith caled. Mae PC Thomas yn aml yn dod i'r ysgol i gynnal gweithdai amrywiol gyda'r disgyblion a thro blwyddyn 4 oedd hi'r tymor hwn, gyda gweithdy ar ddieithriaid.

**Clybiau newydd:**

Mae amrywiaeth o glybiau newydd wedi dechrau yn ystod y tymor, gan gynnwys Clwb Gwyddoniaeth, Clwb Celf, a chôr chwythbrennau. Mae'r clybiau hyn yn cael eu cynnal yn ystod amser cinio. Ar ôl y Nadolig, bydd Clwb Codio yn dechrau ar gyfer disgyblion blynyddoedd 5 a 6 felly cadwch eich llygad allan am hwn.

**Perfformiad Shakespeare:**

Cafodd rhai o ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 gyfle i berfformio drama Shakespeare 'A Midsummer Night's Dream' yn Theatr Glanyrafon yng Nghasnewydd ar Dachwedd 15fed. Gweithiodd y disgyblion yn galed iawn ac roedd y perfformiad yn wych. Da iawn i bawb.

**Tripiau:**

Mae sawl trip wedi bod yn ystod y tymor, gan gynnwys taith y derbyn i weld sioe Cyw, taith blynyddoedd 1 a 2 i weld sioe yn y Theatr y Sherman, taith blynyddoedd 3 a 4 i Bwll Mawr a thaith blynyddoedd 5 a 6 i Ganolfan Ddŵr Cilfynydd.

Yn ogystal â thripiau, rydym wedi croesawu sawl ymwelydd i'r ysgol gan gynnwys Christian Malcolm i drafod ei academi, Evan Morgan i gynnal gwasanaeth Diolchgarwch, gweithdy Techniquest blynyddoedd 3 a 4, gweithdy STEM 5 a 6, sioe Mimosa CA2, gweithdai Ffa La La y Cyfnod Sylfaen ac mae disgyblion blwyddyn 6 wedi mwynhau cymryd rhan mewn gweithdai Gwyddoniaeth amrywiol sydd wedi eu trefnu gan wyddonwyr ym Mhrifysgol Caerdydd.

**Y Siarter Iaith:**

Mae'r Siarter Iaith yn dal i fod ar waith yn yr ysgol. Ar Hydref 26ain, cafwyd lawnsad ar gyfer cyflwyno gwaith y flwyddyn a'n targedau ar gyfer eleni. Rydym am barhau gyda'r gwaith blaenorol ond rydym hefyd am geisio codi statws y Gymraeg o fewn ein cymuned. Aeth grŵp o ddisgyblion i gynnal arolwg o ddefnydd y Gymraeg yng nghanolfan siopa Cwmbrân ac rydym eisoes wedi ysgrifennu at berchnogion y ganolfan siopa er mwyn gofyn iddynt ystyried cael arwyddion Cymraeg yno.

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA!**

Diolch i bawb am eich holl gefnogaeth yn ystod y tymor. Nadolig Llawen i bawb ac edrychwn ymlaen at eich croesawu'n ôl i'r ysgol ym mis Ionawr. Bydd yr ysgol yn ail agor i'r disgyblion ar **ddydd Mawrth, 9fed o Ionawr.**

**Working with the community:**

A strong link remains between the school and the local community. During the term, a lot of work has taken place with the Salvation Army Church. In November, a group of pupils spent the afternoon with an elderly group there, playing games and keeping them company. In recent weeks, the school prefects visited the church to see how the food bank works.

On September 26th, workers from Lloyds Bank came to undertake some work around the school site and we're very grateful to them for their hard work. PC Thomas often comes to school on a regular basis to hold different workshops. It was year 4 pupils' turn this term, with a workshop on stranger danger.

**New Clubs:**

A variety of clubs have started this term, including a Science Club, Art Club and a Woodwind choir. They are held during lunchtime. In the new year, a new Coding Club will be starting for year 5 and 6 pupils so keep your eyes open for this.

**Shakespeare Performance:**

Some year 5 and 6 pupils were lucky enough to be a part of 'A Midsummer Night's Dream' production which was put on in The Riverfront Theatre in Newport on November 15th. The pupils worked to prepare and they all performed excellently. Well done to everyone.

**Trips:**

A number of trips have been arranged this term, including the reception class trip to see CYW, year 1 and 2 trip to the Sherman Theatre, year 3 and 4 trip to Big Pit and the year 5 and 6 trip to Cilfynydd Water Centre.

We've also had many visitors to the school, including Christian Malcolm who discussed his sports academy, Evan Morgan who took our Harvest Assembly, the year 3 and 4 Techniquest workshop, the year 5 and 6 STEM workshops, the Mimosa show for KS2 pupils, Ffa La La workshops for the Foundation Phase children and year 6 pupils have enjoyed taking part in different Science workshops which have been organised by a scientist from Cardiff University.

**The Welsh Language Charter:**

The Welsh Language Charter work is still going strong in school. On October 26th, we held a launch to present this year's work and our targets. We're still continuing with our previous work but we're also trying to promote the status of the Welsh language in the community. A group of pupils went to carry out a survey of the use of the Welsh language in Cwmbrân town centre and we've already written to the owners asking them to consider having Welsh language signs in the centre.

**MERRY CHRISTMAS AND A HAPPY NEW YEAR!**

Thank you to everyone for all your support during the term. We hope you all have a lovely Christmas and we look forward to welcoming the pupils back to school in January. The school will reopen for the pupils on **Tuesday, January 9th.**

# The community, clubs and trips

# Adroddiad y Cyngor / School Council Report

Rydyn ni wedi cael tymor prysur a dyma rai o'r pethau rydyn ni wedi eu gwneud:

- Mis Medi - etholiadau'r cyngor a pheidlais lle cawsom ni gyd ein dewis.
- Yn y cyfarfodydd, rydyn ni wedi bod yn rhannu ein syniadau a dewis swyddi gwahanol i bawb.
- Diwrnod Plant Mewn Angen - Diwrnod pyjamas a golchi ceir athrawon. (£391.40)
- Ym mis Rhagfyr, aethon ni i Eglwys Byddin yr Iachawdwriaeth er mwyn dysgu am y banc bwyd ar gyfer ein hymgyrch Nadolig. Casglon ni 67 bag o nwyddau ymolchi a llawer iawn o fwyd felly diolch i bawb!

We've had a very busy term and here are some of the things we've been doing:

- September — School council elections and a vote where we were all chosen.
- In the meetings, we've been sharing our ideas and everyone has been given different roles.
- Children In Need Day — pyjama day and we washed the teachers' cars. (£391.40)
- In December, we visited the Salvation Army Church to learn about how the food bank works there. We then decided to support the food bank for our Christmas campaign. We collected 67 bags of toiletries and a huge amount of food/tins so thank you to everyone.

# Adroddiad yr Eco-bwyllgor / Eco-Committee Report

Mae'r Eco-bwyllgor wedi bod yn hynod o brysur y tymor hwn hefyd. Dyma beth maen nhw wedi bod yn ei wneud:

- Ar ddechrau mis Medi, pleidleisiodd bob dosbarth ar gyfer aelod newydd i'r eco-bwyllgor.
- Mae pob aelod wedi cael swydd benodol e.e. casglu sbwriel, gwneud adolygiad o'r egni sy'n cael ei ddefnyddio ym mhob dosbarth ac ailgylchu ayyb.
- Rydyn ni wedi creu arolwg brwsio dannedd ac arbed dŵr gyda Dŵr Cymru.
- Rydym wedi gosod targedau newydd i'r ysgol gyfan er mwyn i ni ennill gwobr platinwm.
- Rydym wedi cyflwyno 'Egni' sef masgot newydd yr eco-bwyllgor. Mae Egni yn mynd i ddosbarth gwahanol bob wythnos, yn dibynnu pwy sydd â'r nifer mwyaf o bwyntiau am arbed trydan ac ailgylchu yn y dosbarth.
- Byddwn yn ailgylchu cardiau Nadolig yn y flwyddyn newydd!

The Eco-Committee has also been very busy this term. Here are some of the things they've been doing:

- At the beginning of September, every class voted for a representative for the eco-committee.
- Every member has been given a specific job e.g. collecting rubbish, to carry out an inspection of each class' use of energy and recycling etc.
- We've held a teeth brushing and water saving challenge with Welsh Water.
- We've set new targets for the whole school to win a platinum prize.
- We've introduced 'Egni', our new eco-committee mascot. Egni goes to a different class each week, depending on which class has the highest number of points for recycling and saving electricity.
- We'll be recycling Christmas in the new year.

# Adroddiad yr Arweinwyr Digidol / Digital Leaders Report

Mae'r Arweinwyr Digidol wedi bod yn brysur iawn y tymor hwn. Dyma rai o'r pethau maen nhw wedi bod yn eu gwneud:

- Mis Medi: Aeth pedwar o'r Arweinwyr Digidol i gynhadledd TGCh yn y Celtic Manor.
- Rydym yn cwrdd ar ddydd Iau i rannu syniadau a pharatoi adnoddau.
- Fel ysgol, rydym wedi ennill grant er mwyn dechrau Clwb Codio. Rydym wedi cwrdd ag Arweinwyr Digidol Panteg a Bryn Onnen i drafod syniadau. Byddwn yn dechrau Clwb Codio ar ôl Nadolig.
- Mae rhai o'r Arweinwyr Digidol yn helpu gyda'r Clwb Hwb sydd ymlaen bob amser cinio dydd Gwener.
- Ar ôl Nadolig, byddwn yn rhoi hyfforddiant i staff ar ôl ysgol ar ddydd Llun.

Diolch!

The Digital Leaders have had a very busy term. Here are some of the things they've been doing:

- September: Four of the Digital Leaders attended an ICT conference in the Celtic Manor.
- We meet every Thursday to share ideas and prepare resources.
- As a school, we've won a bid to start a Coding Club. We've met with the Digital Leaders from Panteg and Bryn Onnen to share ideas. We're starting a Coding Club after Christmas.
- Some of the Digital Leaders help with Clwb HWB every Friday lunchtime.
- After Christmas, we'll be giving training to staff in one of their meetings on a Monday.

Thank you!